# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Medi 2016 i'w hateb ar 13 Medi 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo gyda'r argyfwng Meddygon Teulu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0137(FM)

2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ddiwydiant dur Cymru ar hyn o bryd? OAQ(5)0126(FM)

3. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Metro De Cymru? OAQ(5)0128(FM)

4. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A yw'r Prif Weinidog yn arddel ei safbwynt o 2012 ei bod yn briodol i gyngor Caerdydd gael cynlluniau i adeiladu degau o filoedd o dai newydd o fewn ffiniau'r ddinas, gyda nifer fawr o'r rhain ar gaeau gwyrdd? OAQ(5)0138(FM)

5. Lee Waters (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran recriwtio rhagor o Feddygon Teulu? OAQ(5)0120(FM)

6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0123(FM)

7. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0130(FM)**W**

8. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae GIG Cymru yn cynnal yr egwyddor o fod am ddim wrth dderbyn gofal? OAQ(5)0134(FM)

9. **David Melding (Canol De Cymru):** Sut y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar strategaeth sgiliau Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0132(FM)

10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau technoleg yng ngorllewin Cymru? OAQ(5)0121(FM)

11. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa amcangyfrif y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefelau ffyniant yng Nghymru? OAQ(5)0135(FM)

12. **Leanne Wood (Rhondda):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? OAQ(5)0129(FM)

13. **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**: Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darparu gwerth ychwanegol yn y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru? OAQ(5)0136(FM)

14. **David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag amodau gwaith gweithwyr mudol yn y cyfleusterau glanhau ceir? OAQ(5)0127(FM)

15. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r trafodaethau a gafodd yn America mewn perthynas â hyrwyddo a chefnogi cynhyrchu dur yng Nghymru? OAQ(5)0125(FM)